PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 16 MAI 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Williams(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Chowdhury, Henshaw, Hunt, Stubbs a/ac Thomson |

66 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi’u derbyn.

Dywedodd y Cynghorydd Henshaw y byddai'n hwyr yn mynychu'r cyfarfod.

67 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Henshaw fuddiant personol gan fod aelodau o’r teulu’n gweithio i Gyngor Caerdydd.

Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant personol gan fod aelodau o’r teulu’n gweithio i Gyngor Caerdydd.

68 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 1/3/23 a 22/3/23 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

69 : STRATEGAETH GWEITHLU 2023-2027

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod y Cabinet wedi cymeradwyo Strategaeth Gweithlu 2023-27 ym mis Mawrth 2023, gan nodi fframwaith i sicrhau gweithlu hyblyg, medrus, ymroddedig ac amrywiol. Roedd hyn felly'n gyfle i ennill dealltwriaeth lawn o Strategaeth y Gweithlu, sylfaen ar gyfer datblygu'r Polisi Gweithio Hybrid. Er bod Strategaeth y Gweithlu eisoes wedi'i chytuno, gofynnwyd am sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau fel man cychwyn ar gyfer llywio gwaith cynllunio camau gweithredu a meincnod ar gyfer mesur cynnydd dros y 18 mis nesaf.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Paul Orders, Prif Weithredwr; Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau a Tracey Thomas, Prif Swyddog Adnoddau Dynol, ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Weaver a'r Prif Weithredwr i wneud datganiadau ac ar ôl hynny cafodd yr Aelodau gyflwyniad.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Dadleuodd yr Aelodau dros yr opsiwn o weithio o wahanol leoliadau, nid dim ond o gartref neu mewn swyddfa, gan gynnwys adeiladau eraill y Cyngor a lleoliadau partner gwasanaethau cyhoeddus lle bo hynny'n briodol. Pwysleision nhw na ddylid

gorfodi staff i weithio gartref ac na ddylai rheolwyr fynnu lleoliad penodol, gan y gallai niweidio'r berthynas rhwng rheolwyr a staff.

Pwysleisiodd yr Aelodau y dylai rheolwyr sicrhau perthynas gyfartal â staff p'un a ydynt yn rhyngweithio ar y sgrin neu wyneb yn wyneb, tra'n parchu'r llinell gain rhwng y gwaith a phreifatrwydd yn y cartref. Mae angen sefydlu protocolau ac amddiffyniadau i sicrhau cyfrinachedd cyflogeion a chefnogaeth rheolwyr.

Mynegwyd pryderon am y posibilrwydd o golli cydweithio ac ysbrydoliaeth gan staff allblyg wrth weithio gartref. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r Polisi Gweithio Hybrid gynnwys arweiniad i reolwyr mewn achosion lle nad yw cyflogeion o bell yn perfformio'n dda.

Mynegodd yr Aelodau y farn na ddylai staff fod dan anfantais ariannol trwy weithio gartref oherwydd costau byw uwch. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd y polisi yn esblygu dros amser, a gall staff ddychwelyd i'r swyddfa os bydd gweithio gartref yn mynd yn rhy ddrud. Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau hefyd y gall gostyngiad mewn costau teithio wrthbwyso costau cynyddol cyfleustodau swyddfa gartref.

Ceisiwyd sicrwydd ynghylch protocolau diogelwch ar gyfer cyflogeion sy'n byw dramor, gan gynnwys prosesau recriwtio priodol a'r fisâu gwaith angenrheidiol.

Trafodwyd cydbwysedd bywyd gwaith, gydag awgrym i fynd i'r afael â gofynion cyfarfodydd ar-lein olynol a'r angen am seibiannau i ddiogelu iechyd a lles cyflogeion.

Teimlai'r Aelodau fod gan unigolion yr hawl i breifatrwydd yn eu cartrefi eu hunain ac efallai bod ganddynt resymau dilys dros gadw eu camera wedi’i ddiffodd yn ystod gwaith o bell. Fodd bynnag, cytunwyd y dylid cynnal dillad priodol yn ystod cyfarfodydd rhithwir.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod angen data cywir ar nifer y cyflogeion sy'n dewis gweithio o Neuadd y Sir bob dydd cyn adolygu'r polisi. Gofynnodd yr Aelodau am gael mynediad at unrhyw ddata presennol ar staff sy'n gweithio o adeiladau swyddfa craidd i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Polisi Gweithio Hybrid.

Trafododd yr Aelodau bwysigrwydd gosod amser gorffen gwaith tra’n sicrhau bod digon o aelodau tîm yn gweithio drwy gydol y dydd. Roedd yr Aelodau'n teimlo'n gryf na ddylid disgwyl i gyflogeion fod ar gael y tu hwnt i oriau swyddfa arferol, ac y dylai aelodau tîm rannu eu cynlluniau gwaith gyda rheolwyr i sicrhau bod digon o aelodau tîm yn gweithio.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 70 : FFRAMWAITH POLISI GWEITHIO HYBRID

Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau fod yr eitem hon yn cynnig cyfle i graffu ar ddatblygu polisi ar ddull y Cyngor o ddatblygu Polisi Gweithio Hybrid. Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 y papurau yn cynnig fframwaith ar gyfer dull y Cyngor o ddatblygu Polisi Gweithio Hybrid, ac yn dirprwyo’r gwaith o ddatblygu’r polisi’n fanwl i Bennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad. Gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig syniadau ynghylch

cynnwys y Polisi Gweithio Hybrid, gan ganolbwyntio ar yr egwyddorion eang yn yr adroddiad, ac i nodi meysydd ychwanegol ar gyfer ymchwil wrth i'r Cyngor barhau i ddatblygu'r polisi. Mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â gwaith craffu blaenorol ar y pwnc hwn, gan gynnwys ei ymchwil ei hun ar weithio gartref ac ystwyth, felly gwahoddwyd yr Aelodau hefyd i ystyried a oedd eu hargymhellion ar Weithio Gartref wedi llywio'r fframwaith polisi a ddatblygwyd hyd yma.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau a Tracey Thomas, Prif Swyddog Adnoddau Dynol, ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad ac ar ôl hynny cafodd yr Aelodau gyflwyniad.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Trafododd yr Aelodau yr angen i adolygu gwerthoedd diwylliannol y sefydliad fel rhan o Strategaeth y Gweithlu. Roeddent yn falch o glywed y bydd rheolwyr yn derbyn arweiniad ar reoli staff yn seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach nag ar bresenoldeb. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd gwerthoedd diwylliannol cyffredin a'u hintegreiddio i waith cynllunio camau gweithredu ar gyfer Strategaeth y Gweithlu.

Cydnabu'r Prif Weithredwr yr angen i ailedrych ar werthoedd sefydliadol a datblygu siarter cyflogeion gyda phwyslais ar fod yn agored, tegwch ac undod. Bydd sgyrsiau ac arolygon staff yn cael eu blaenoriaethu i gasglu barn.

Nododd yr Aelodau y bydd y model gwaith newydd yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr ddeall diwylliant sefydliadol, cydnabod arwyddocâd eu rhyngweithio â staff, a gweithredu fel modelau rôl. Bydd fframwaith cymhwysedd rheoli sy'n gysylltiedig â sefyllfa ddiwylliannol yn cael ei ddatblygu, bydd canlyniadau'n cael eu gwobrwyo, a bydd effeithiolrwydd y fframwaith yn cael ei adolygu'n gyson.

Croesawodd yr Aelodau yr ymagwedd gadarnhaol at bartneriaethau cymdeithasol a bodolaeth perthnasau da. Cawsant sicrwydd y bydd trafodaethau cadarn o fewn ffiniau priodol yn parhau ac nad yw cydbwysedd y partneriaethau hyn a'r ffordd y cânt eu hymwreiddio'n debygol o newid.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd ymgysylltu wyneb yn wyneb â staff i sicrhau bod gan reolwyr ddealltwriaeth drylwyr o aelodau eu timau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd yr ymgysylltu penodol hwn yn cael ei amlinellu yng Nghynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaethau, gan gynnig hyblygrwydd sy'n addas i reolwyr a staff.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod staff rheng flaen wedi cael eu hyfforddi mewn dull sy'n seiliedig ar drawma a rhoddwyd gwybod iddynt fod Iechyd Galwedigaethol yn gweithio'n agos gyda rheolwyr, yn enwedig mewn meysydd fel Gwasanaethau Plant.

Croesawodd yr Aelodau y canllawiau Adnoddau Dynol sydd ar ddod ar reoli cyflyrau niwroamrywiol a ffocws y Cyngor ar gyflyrau iechyd meddwl. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y gwaith arfaethedig i ddatblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar-lein ar gyfer gwahanol gyflyrau niwroamrywiol.

Rhoddwyd sicrwydd i’r Aelodau fod ymgynghori ag undebau llafur, rhwydweithiau cyflogeion, a fforymau rheolwyr wedi’i gynnal cyn cyflwyno Strategaeth y Gweithlu i'r Cabinet a bod cynnwys y strategaeth wedi'i gyfleu i'r holl staff.

Trafododd yr Aelodau gapasiti a sylfaen sgiliau'r gwasanaeth Adnoddau Dynol i roi cymorth priodol. Rhoddwyd gwybod iddynt am ailstrwythuro diweddar o fewn y gwasanaeth Adnoddau Dynol, a ddaeth â sgiliau newydd i mewn trwy reolwyr newydd eu penodi.

Nodwyd bod hyblygrwydd yn bwysig, a chroesawodd yr Aelodau y dyhead i gadw staff trwy opsiynau ymddeol hyblyg a chyfleoedd datblygu gyrfa. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y Cyngor yn anelu at gadw a denu cyflogeion hŷn (65+ oed), a bydd sgyrsiau ac ymgynghori â staff yn werthfawr yn hyn o beth. Nododd a chroesawodd yr Aelodau y ffaith bod ailstrwythuro yn cynnig cyfleoedd i gynyddu nifer y prentisiaethau.

Nododd yr Aelodau fod y Cyngor yn gweithredu mewn marchnad swyddi hynod gystadleuol gyda nifer uchel o swyddi gwag yn genedlaethol a dyfarniadau cyflog yn y sector cyhoeddus nad ydynt yn cyfateb i ddyfarniadau yn y sector preifat. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod angen i ymdrechion cyfathrebu fod yn fwy cystadleuol i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid pwysleisio manteision anariannol gweithio yn y sector cyhoeddus. Nododd yr Aelodau fod gwaith i symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer swyddi'r Cyngor ac annog staff i rannu eu profiadau gwaith ar y gweill.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

71 : GWASANAETHAU CWSMERIAID A DIGIDOL

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiadau mewn perthynas â Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol y Cyngor. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn rhoi cyfrifoldeb o ran craffu ar weithrediad cyffredinol rhaglen wella'r Cyngor, gan gynnwys Gwasanaethau Canolfan Gyswllt, Mynediad Gwasanaeth, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Cyflwynodd y craffu hwn y sefyllfa ddiweddaraf ym mydoedd Cwsmeriaid a Digidol, gan gydnabod eu cyd-ddibyniaeth, a'r ffaith eu bod yn ganolog i raglen gwella ar ôl y pandemig y Cyngor. O ystyried trawsnewidiad digidol y pwnc hwn, gwahoddwyd yr Aelodau i brofi bod y cyfeiriad teithio yn unol â llesiant cenedlaethau'r dyfodol tra'n sicrhau bod y Cyngor yn gynhwysol i'w holl gwsmeriaid. Gwahoddwyd yr Aelodau hefyd i fyfyrio ar gyfleoedd am ymgysylltu craffu pellach fel rhan o raglen waith 2023/24 y Pwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau, Isabelle Bignall, Prif Swyddog Digidol, a Rachel Bishop, Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid, ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad ac ar ôl hynny cafodd yr Aelodau gyflwyniad.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd cadw hygyrchedd i bawb wrth i'r Cyngor symud ymlaen gyda gwasanaethau digidol, yn enwedig i'r rheiny sy'n siarad ieithoedd lleiafrifol ac unigolion sydd wedi colli eu golwg. Gofynnon nhw am fynediad i'r adroddiad hygyrchedd ar gyfer y strategaeth ddigidol er mwyn sicrhau cynwysoldeb.

Croesawodd yr Aelodau y trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill i rannu arbenigedd mewn gwasanaethau fel Comisiynu a Chaffael a gwnaethon nhw annog y swyddogion i ystyried cydweithredu pellach â gwasanaethau digidol.

Cydnabu'r Aelodau y gwaith helaeth a wnaed i sicrhau bod Bobi, SgyrsBot y Cyngor, yn cael ei ddarparu'n effeithiol yn y Gymraeg. Gwnaethon nhw annog y swyddogion i archwilio cyfleoedd masnachol i rannu'r arbenigedd hwn ond nodon nhw yr her o recriwtio a chadw datblygwyr meddalwedd yn yr hinsawdd bresennol.

Mynegodd yr Aelodau ddiddordeb mewn ymweliad codi ymwybyddiaeth â gwasanaethau cwsmeriaid rheng flaen, C2C. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddigidol, Bobi'r SgyrsBot, y Deallusrwydd Artiffisial ChatGPT, a sut y gall Deallusrwydd Artiffisial gynorthwyo'r Cyngor i ymdrin â chwynion.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd nad yw data personol cwsmeriaid y Cyngor a rennir ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter yn cael ei storio. Gwnaethon nhw gydnabod gwerth defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ond pwysleision nhw'r angen am oruchwyliaeth a sianeli priodol ar gyfer ceisiadau am wasanaethau, fel ailgyfeirio sylwadau sy'n gysylltiedig â chynllunio i'r Porth Cynllunio.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod gan y Cyngor fesurau priodol ar waith pe bai mynediad diawdurdod at ddata, o ystyried sensitifrwydd y data y mae'n ei drin. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am brosesau cadarn ar gyfer canfod bygythiadau seiber, archwiliadau allanol diweddar o drefniadau seiberddiogelwch, a nodi cysylltiadau gwan fel cadw staff seiberddiogelwch a lliniaru'r risg y bydd staff yn agor dolenni gwe-rwydo. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Cyngor yn cynnal profion gwe-rwydo ac yn cynnig modiwlau hyfforddiant ar-lein ar seiberddiogelwch.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

72 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm